


# LLWYBR PABI Y RHYFEL MAWR CASTELL-NEDD

Mae Llwybr Pabi y Rhyfel Mawr Castell-nedd yn rhan o ddathliadau coffáu'r canmlwyddiant, a'i nod yw adrodd hanes ychydig o'r milwyr a gollodd eu bywydau yn y gwrthdaro. Mae hefyd yn mapio'r rhai a fu'n byw yng nghanol y dref a'r cyffiniau. Gan ddefnyddio'r map, gallwch ymweld â'r strydoedd a gweld y tai lle bu'r dynion a'u teuluoedd yn byw, gan obeithio y bydd hyn yn golygu eu bod yn fwy nag enw ar blac.







*Mae atgofion o'r rhyfel i'w gweld ym mhobman: fwyaf amlwg yw Gatiau Coffa'r Gnoll, sy'n cynnwys enwau'r 459 o ddynion o Gastell-nedd wedi'u rhestru ar chwe phlac pres.*





Pan ddechreuodd y rhyfel ym mis Medi 1914, roedd byddin Prydain yn eithaf bach (oddeutu 975,000 gan gynnwys y lluoedd tiriogaethol ac wrth gefn), felly galwyd am wirfoddolwyr. Roedd yr ymateb yn fawr, ond aeth y rhyfel yn ei flaen a chynyddodd nifer y meirw, felly bu angen consgripsiwn (gorfodaeth filwrol, yn gorfodi dynion o oedran ymladd i ymrestru), a ddechreuodd ar 2 Mawrth 1916.

Roedd nifer y meirw yn y Rhyfel Mawr ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen mewn unrhyw wrthdaro – bu farw deg miliwn o filwyr, gyda 700,000 yn Brydeinwyr a 40,000 yn Gymry. O'r rheiny, bu farw 459 o filwyr o Gastell-nedd yn ystod y gwrthdaro, ac maent wedi'u coffáu ar Gofeb y Gnoll. Dioddefodd llawer mwy o ddynion anafiadau a newidiodd eu bywyd: rhai corfforol a meddyliol.

*Ffotograff:*
*Preifat Robert David Rees DCM, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig*

## MYNEGAI'R MAP - PARHAD

### 15. COMMERCIAL STREET

- **Preifat John Scully, y Gatrawd Gymreig.** 13 Commercial Street. Ganwyd ym 1882, bu farw ar 18 Ebrill 1918 (nid yw'r tŷ yno bellach).
- **Preifat John Laing, y Gatrawd Gymreig.** Bu'n byw yn Victoria Hotel (Dark Arch/Arches bellach), Commercial Street. Ganwyd ym 1876, bu farw ar 17 Ionawr 1916.

### 16. CRESWELL ROAD

- **Is-gorpral Allan Leonard Lewis VC, Chweched Bataliwn. Catrawd Swydd Northampton.** 17 Creswell Road (brodor o Swydd Henffordd). Ganwyd ym 1895, bu farw ar 21 Medi 1918.
- **Preifat Robert David Rees DCM, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 9 Creswell Terrace (Road). Ganwyd ym 1889, bu farw ar 15 Tachwedd.
- **Preifat Edgar Beer Rhys, y Gatrawd Gymreig.** 3 Creswell Terrace. Ganwyd ym 1899, bu farw ar 18 Medi 1918.

### 17. EASTLAND ROAD

- **Preifat William Harold Griffiths, Catrawd Llundain.** 39 Eastland Road. Ganwyd ym 1899, bu farw ar 28 Mawrth 1918.
- **Preifat Ernest Morgan Vickery, Corfflu Gwasanaeth y Fyddin.** 55 Eastland Road. Ganwyd ym 1892, bu farw ar 7 Hydref 1918.

### 18. LONDON ROAD

- **Preifat Edgar John Holywell, y Gatrawd Gymreig/Corfflu Tanciau.** 62 London Road. Ganwyd ym 1893, bu farw ar 8 Awst 1917.
- **Is-gapten Michael Joseph O'Flynn, Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin, yn rhan o Fataliwn Cyntaf Catrawd Swydd Northampton.** 22 London Road. Ganwyd ym 1879, bu farw ar 24 Medi 1918.
- **Gyrrwr D. R. Evans, y Magnelwyr Maes Brenhinol.** 37 London Road. Bu farw ar 22 Medi 1917.

### 19. PARK STREET

- **Stiward Swyddog Trydydd Dosbarth Herbert Colston Keyes, y Llynges Frenhinol.** 5 Park Street. Ganwyd ym 1899, bu farw ar 26 Hydref 1918.

### 20. RECTORY ROAD

- **Preifat Patrick Sullivan, Marchfilwyr Connaught/Corfflu Gynnau Peiriant.** 8 Rectory Road. Ganwyd ym 1881, bu farw ar 9 Ionawr 1918 (salwch fel carcharor rhyfel).
- **Preifat David John Hill, y Gatrawd Gymreig.** 10 Rectory Road. Ganwyd ym 1892, bu farw ar 24 of Awst 1918.
- **Preifat William John Evans, y Gatrawd Gymreig.** Ganwyd ym 1897, bu farw ar 27 Awst 1917.
- **Preifat William John Evans (ddim ar y gofeb).** 12 Rectory Road. Ganwyd ym 1897, bu farw ar 27 Awst 1917.

### 21. ROSSER STREET

- **Preifat Rosser David Rosser, Troedfilwyr Swydd Amwythig y Brenin.** 6 Rosser Street. Bu farw ar 14 Gorffennaf 1916.
- **Preifat Edward Hall (ddim ar y gofeb).** 8 Rosser Street. Bu farw ar 4 Ebrill 1916.
- **Preifat Ivory Pyle, Catrawd Llundain.** Rosser Street. Ganwyd ym 1891, bu farw ar 23 Mai 1916.

Roedd gan Gastell-nedd ei neuadd ymarfer ei hun ar gornel Heol Cimla a Heol Eastland, y mae'n dal i fod yno heddiw. Fe'i hagorwyd ar 1 Mai 1914 ac roedd yn gartref i F. Coy, Chweched Bataliwn y Gatrawd Gymreig (y llu tiriogaethol) yn ogystal â bod yn rhan o Sgwadron A Iwmoniaeth Morgannwg ac Ail Fagnelfa Brigâd Gyntaf Cymru (Howitser). Dyma ble daeth nifer o'r dynion lleol a wasanaethodd i ymrestru.

Roedd nifer o ysbytai yng Nghastell-nedd yn trin cleifion y rhyfel ac yn ymadfer milwyr: y prif ysbyty oedd y Trydydd Ysbyty Cyffredinol Gorllewinol, neu'r Ysbyty Milwrol yn Llansawel (bellach wedi'i ddymchwel). Roedd Ysbytai'r Groes Goch hefyd, The Laurels, sydd ar Lewis Road o hyd; yr ysbyty yn Ysgol Cwrt Sart (bellach wedi'i ddymchwel); yr ysbyty yn Ysgol Fabanod y Gnoll, Woodland Road; a'r ysbyty bach ar Gnoll Park Road (gyferbyn â'r Orsaf Heddlu, sydd bellach wedi'i ddymchwel).

Mae nifer o eglwysi yng Nghastell-nedd sy'n dyddio cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn y rhain yn aml gwelwch Restr y Gwroniaid a rhestr o ddynion o'r plwyf neu'r eglwys a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Mawr. Mae'r enghraifft orau yn Eglwys Sant Tomos, sydd â Rhestr y Gwroniaid wych a beintiwyd â llaw.

## BLE I GAEL RHAGOR O WYBODAETH:

**Llyfrgell Castell-nedd:**
**Llyfrgell Fenthyca a Chyfeiriadurol**

**Llyfrgell Llansawel**

**www.livesofthefirstworldwar.org**

**www.cymru1914.org/en/home**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru:**
**www.cymruww1.llgc.org.uk**

**Facebook:**
***'Neath Port Talbot World War One'***
***'Neath and Briton Ferry Soldiers of the Great War 1914 1918'***



*Ffotograff:*
*Is-gorpral*
*Allan Leonard Lewis VC,*
*Catrawd Swydd Northampton.*

Neath Town Council
Cyngor Tref Castell-nedd

Ariannwyd a chefnogir y cyhoeddiad gan Gyngor Tref Castell-nedd. Diolch arbennig i'r Dirprwy Faer y Cynghorydd Bob Price am gynnig y cyfle i mi weithio gyda NTC, ac i'r Maer y Cynghorydd Mark Protheroe am ei gefnogaeth barhaus. Diolch i Glerc y Dref, Kathryn Charles, am y cyfan a wnaeth i gefnogi'r prosiect.

Diolch i fy ffrind Roderick Hughes o Swansea Pals am ei gymorth a'i gefnogaeth. I Colin a changen Castell-nedd y Lleng Brydeinig Frenhinol am gyflenwi'r pabïau ceir plastig a ddefnyddiwyd i nodi'r tai a'r adeiladau. I Harriet and Co. yn Llyfrgell Castell-nedd am ganiatáu i mi weld ffotograffau yng Nghasgliad Amgueddfa Castell-nedd. Diolch i Jonathan Skidmore, a phob clod am ei lyfr ardderchog, *Neath and Briton Ferry in The First World War*. Yn olaf, diolch i Jeff Griffiths am roi'r llun o'i hen ewythr Robert Rees DCM.


- Jim Harle

**Parchwch breifatrwydd perchnogion y tai sydd wedi'u cynnwys ar y Llwybr ar bob adeg, fel y byddech unrhyw breswylwyr preifat eraill yn yr ardal.**

Rhannwch y cyhoeddiad hwn a'i roi i rywun arall ar ôl i chi orffen ag ef, neu ailgylchwch yn gyfrifol.

**Mae fersiynau electronig a Saesneg ar gael o'r cyhoeddiad ar wefan Cyngor y Dref: www.neathtowncouncil.gov.uk (yn yr adran News & Events)**

**YMWADIAD: mae'r wybodaeth a ddarperir ar y map hwn yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth ar adeg ei argraffu. Mae rhai strydoedd wedi'u hailrifo a'u hailenwi dros y blynyddoedd, a hyd yn oed wedi 'symud'. Efallai mai'r cyfeiriadau a nodir mewn perthynas â'r meirw yw'r rhai y symudodd eu perthnasau iddynt neu ble y bu fyw eu rhieni ar adeg eu marwolaeth neu adeg casglu enwau ar gyfer y gofeb. Rwyf wedi'i gwneud fy ngorau i wirio/cyfrif am yr holl ffactorau hyn.**




# MYNEGAI'R MAP

## 1. ALLISTER STREET
- **Preifat David Cleaver, Corfflu Arfau'r Fyddin/Sherwood Foresters Catrawd Swydd Nottingham a Swydd Derby.** 33 Alexander Street, Allister Street bellach. Bu farw ar 22 Medi 1917. (Methwyd dod o hyd i'r tŷ hwn.)
- **Is-gorpral William John Rees, y Gatrawd Gymreig.** 12 Alexander Street, Allister Street bellach. Ganwyd ym 1819, bu farw ar 26 Mawrth 1923.

## 2. ALFRED STREET
- **Corporal Griffith Bending, y Peirianwyr Brenhinol.** 33 Alfred Street. Ganwyd ym 1892, bu farw ar 18 Chwefror 1918. Adeilad HRT Estate Agents bellach.

## 3. CASTLE STREET
- **Andrew (alias Anthony) O'Neill, Cyffinwyr De Cymru.** Castle Street. Ganwyd ym 1887, dienyddiwyd gan fintai saethu ar 30 Ebrill 1916.
- **Preifat John Jack O'Neill, y Gatrawd Gymreig Catrawd Swydd Gaerlleon.** Brawd Andrew (alias Anthony). Ganwyd ym 1885, dyddiad ei farwolaeth heb ei gadarnhau.
- **Preifat Thomas Roberts, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 21 Castle Buildings. Ganwyd ym 1870, bu farw ar 6 Hydref 1919 (heb gysylltiad â'r rhyfel).
- **Preifat Daniel Watkins, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** Castle Buildings. Ganwyd ym 1890, bu farw ar 18 Medi 1918.

## 4. GNOLL AVENUE
- **Is-gapten Daniel Gwyn Thomas, Ffiwsilwyr Brenhinol Dulyn.** Gnoll Avenue. Bu farw ar 24 Mai 1915.
- **Ail Lefftenant Dros Dro Capten Henry Merddyn Jones, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** Gnoll Avenue. Bu farw ar 13 Tachwedd 1916.
- **Preifat William David Williams, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** Gnoll Avenue. Bu farw ar 31 Gorffennaf 1917.

## 5. GNOLL PARK ROAD
- **Ail Lefftenant John Jack Angus Griffiths, Catrawd Swydd Gaerloyw.** Gnoll Park Road. Bu farw ar 23 Ebrill 1918.
- **Rhingyll William Arthur Cyril Moore, Brigâd y Reifflwyr.** Gnoll Park Road. Bu farw ar 23 Mawrth 1918.
- **Ail Lefftenant William George Griffiths, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** Gnoll Park Road. Bu farw ar 9 Mawrth 1918.
- **Ail Lefftenant John (Jack) Enos Griffiths, Catrawd Swydd Gaerloyw.** Ganwyd ym 1893, bu farw ar 23 Ebrill 1918.
- **Preifat Richard Davies (ddim ar y gofeb), Catrawd Frenhinol Sir Gaerhirfryn y Brenin.** Gnoll Park Road. Ganwyd ym 1895, bu farw ar 26 Ionawr 1921.
- **Preifat John Frederick Harris, y Gatrawd Gymreig.** Gnoll Park Road. Ganwyd ym 1894, bu farw ar 8 Mai 1915.

## 6. GREENWAY ROAD
- **Preifat William George Billings, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 41 Greenway Road. Bu farw ar 26 Medi 1917.
- **Preifat Leonard John Merriman, y Gatrawd Gymreig.** Greenway Road. Ganwyd ym 1884, bu farw ar 14 Rhagfyr 1918.

## 7. OLD MARKET STREET
- **Is-ringyll Charles Penny, Catrawd y Cyffinwyr.** Gweithiodd yn siop trin gwallt John Rhys, 16 Old Market Street. Bu farw ar 5 Gorffennaf 1916.
- **Preifat Arthur Jones, y Gatrawd Gymreig.** Old Market Street. Ganwyd ym 1893, bu farw ar 9 Tachwedd 1917.

## 8. ORCHARD STREET
- **Preifat Charles Bernard Griffiths, Catrawd Swydd Lincoln.** Ei rieni oedd yn rhedeg y Royal Oak Hotel (Costa Coffee) ar Orchard Street. Bu farw ar 1 Mai 1918.

## 9. QUEEN STREET
- **Lefftenant Reginald Spencer Dudley Thomas, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** Roedd ei dad yn gyfreithiwr llwyddiannus, gyda phractis yn 38 Queen Street. Ganwyd ym 1896, bu farw ar 18 Medi 1918.
- **Corporal James Jenkins, Brigâd y Reifflwyr.** Queen Street. Ganwyd ym 1890, bu farw 1 Medi 1917.
- **Preifat Thomas Lewis Llewellyn, Corfflu Gynnau Peiriant Canada.** 35 Queen Street. Ganwyd ym 1880. Bu farw ar 12 Ebrill 1917.

## 10. THE ROPEWALK
- **Preifat Edgar Arthur Jones, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 27 The Ropewalk. Bu farw ar 6 Hydref 1918.
- **Preifat Walter George Perlman, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 29 The Ropewalk. Ganwyd ym 1896, bu farw ar 17 Gorffennaf 1916.
- **Preifat David Samuel Anthony, Royal Berkshires.** 18 The Ropewalk. Ganwyd ym 1883, bu farw ar 24 Ebrill 1917.
- **Rhingyll Homer Davies, y Gatrawd Gymreig.** The Ropewalk. Ganwyd ym 1891, bu farw ym mis Medi 1915.

## 11. VICTORIA GARDENS
- **Preifat Benjamin John Noot, Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin/Catrawd Wiltshire.** 11 Victoria Gardens. Bu farw ar 22 Hydref 1918.
- **Preifat Alexander William Chapman, y Gatrawd Gymreig.** 4 Victoria Gardens. Ganwyd ym 1877, bu farw ar 17 Mai 1915.

## 12. WATER STREET
- **Preifat Frank Abbott, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.** 27 Water Street. Bu farw ar 21 Mehefin 1918.
- **Preifat James John, y Gatrawd Gymreig.** 54 Water Street. Ganwyd ym 1887, bu farw ar 22 Awst 1917.
- **Preifat William John Wayman, Catrawd Geffylau Gymreig Sir Drefaldwyn.** 61 Water Street. Bu farw ar 17 Mehefin 1917.
- **Preifat Evan John Rosser, Cyffinwyr De Cymru/Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin.** 49 Water Street. Ganwyd ym 1893, bu farw ar 13 Awst 1918.

## 13. WIND STREET
- **Pen-llongwr Ernest John William Warren, Adran y Llynges Frenhinol Bataliwn Hawke.** 14A Wind Street. Bu farw ar 23 Ebrill 1917.
- **Preifat Godfrey Dory, Catrawd De Sir Gaerhirfryn.** Wind Street. Ganwyd ym 1883, bu farw ar 24 Mawrth 1918.
- **Preifat Elias Jenkins, Catrawd De Sir Gaerhirfryn.** 37A Wind Street. Ganwyd ym 1897, bu farw ar Wind Street ar 7 Ebrill 1920. Mae wedi'i gladdu ym mynwent Llanilltud.
- **Preifat John Samuel Vickery, Cyffinwyr De Cymru.** 33 Wind Street. Ganwyd ym 1898, bu farw 23 i 25 Tachwedd 1917.

## 14. WINDSOR ROAD
- **Preifat William Bodycombe James, Corfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin.** 71 Windsor Road. Ganwyd ym 1899, bu farw ar 19 Chwefror 1918, yn 18 oed.
- **Corporal James Jenkins, Brigâd y Reifflwyr.** Windsor Road. Bu farw ar 1 Medi 1917.
- **Preifat Hyman Lietz, y Ffiwsilwyr Brenhinol.** 28 Windsor Road (family shop). Bu farw ar 10 Awst 1917.
- **Trimiwr Samuel Bodycombe Rees, Môr-filwr Amryddawn Wrth Gefn.** 65 Windsor Road Grocers. Ganwyd ym 1878, bu farw ar 1 Mawrth 1918.
- **Preifat Daniel Edgar Evans, y Gatrawd Gymreig.** 48 Windsor Road. Ganwyd ym 1898, bu farw ym mis Mehefin 1918.
- **Stiward Ystafell Fwyta Evan Llewellyn Lewis, Môr-filwr Amryddawn.** 83 Windsor Road. Ganwyd ym 1887, bu farw ar 23 Mai 1918.
- **Is-gorpral Reginald Treharne Rombach (ddim ar y gofeb), Cyffinwyr De Cymru.** 84 Windsor Road. Ganwyd ym 1882, bu farw ar 30 Awst 1917.
- **Preifat Herbert Arthur Evans, y Gatrawd Gymreig/Corfflu'r Fyddin.** 124 Windsor Road. Ganwyd ym 1886, bu farw 8 Mawrth 1922.